Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Glancegin
# Maesgeirchen
# Bangor
# Gwynedd
# LL57 1ST

## Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2020

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Glancegin

Mae Ysgol Gynradd Glancegin wedi ei lleoli ar ystad Maesgeirchen yn ninas Bangor yn awdurdod lleol Gwynedd. Daw bron pob un o'r disgyblion o ddalgylch naturiol yr ysgol. Mae 249 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed yn yr ysgol, gan gynnwys 40 oed meithrin sy'n mynychu'n rhan-amser. Cymraeg yw prif iaith a chyfrwng yr ysgol.

Tros dair blynedd, mae cyfartaledd y disgyblion sydd â'r hawl i gael prydau cinio am ddim tua 36%. Mae hyn yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol, sy'n 18%. Mae'r ysgol wedi nodi bod gan tua 33% o'r disgyblion anghenion addysgol arbennig. Mae hyn eto yn sylweddol uwch na'r ffigwr cenedlaethol, sy'n 21%. Daw llawer o ddisgyblion o gartrefi Saesneg ac ond tua 17% ohonynt sy'n siarad Cymraeg adref.

Cynhaliwyd yr arolygiad diwethaf gan Estyn ym mis Chwefror 2013 a phenodwyd y pennaeth presennol ym mis Ionawr 2016.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar sy'n ymgorffori egwyddorion ei harwyddair, sef 'maethu, ysbrydoli, ffynnu', yn llwyddiannus. Mae gan y pennaeth a'i staff ddisgwyliadau uchel o'r disgyblion, yn enwedig wrth hyrwyddo eu hagweddau cadarnhaol tuag at ddysgu. O ganlyniad, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn yn ystod eu hamser yn yr ysgol. Fodd bynnag, nid yw'r disgyblion yn datblygu eu medrau llafaredd, darllen nac ysgrifennu Cymraeg yn ddigon llwyddiannus i fod yn ddysgwyr dwyieithog hyderus.

Ar draws yr ysgol, mae'r athrawon yn darparu gwersi sy'n ennyn diddordeb y disgyblion yn llwyddiannus. Maent yn gwneud defnydd crefftus o ystod o wahanol adnoddau er mwyn paratoi gweithgareddau diddorol i ddisgyblion yn y dosbarthiadau a'r ardaloedd allanol.

Mae'r pennaeth a'i dîm rheoli, sydd wedi cael ei ddiwygio yn ddiweddar, yn cael effaith gadarnhaol ar waith yr ysgol. Maent wedi creu cymuned ddysgu broffesiynol effeithiol sy'n annog staff i fyfyrio ar eu perfformiad yn gydwybodol a gweithredu'n gadarnhaol ar eu canfyddiadau. Caiff perfformiad yr ysgol ei fonitro trwy ystod eang o weithgareddau hunanwerthuso. Yn yr achosion gorau, mae'r ysgol yn adnabod ei chryfderau ac yn mynd i'r afael â materion i'w gwella yn llwyddiannus.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Digonol ac angen gwella** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Argymhellion

A1 Gwella safonau llafaredd, darllen ac ysgrifennu Cymraeg disgyblion

A2 Sicrhau bod gan ddisgyblion cyfnod allweddol 2 gyfleoedd rheolaidd i ddatblygu eu medrau meddwl trwy gyfrwng ymchwiliadau gwyddonol

A3 Datblygu ymhellach fedrau arwain arweinwyr canol

A4 Mynd i'r afael â'r mater iechyd a diogelwch a godwyd yn ystod yr arolygiad

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Digonol ac angen gwella**

Yn nosbarthiadau cyntaf yr ysgol, mae medrau rhan fwyaf y disgyblion yn llawer is na'r lefel ddisgwyliedig ar gyfer eu hoedran. Erbyn diwedd eu hamser yn yr ysgol, fodd bynnag, mae’r rhan fwyaf, gan gynnwys y rheini ag anghenion addysgol arbennig, yn gwneud cynnydd buddiol ac yn cyflawni'n dda o'u mannau cychwyn.

Yn y cyfnod sylfaen, mae medrau gwrando rhan fwyaf y disgyblion yn dda ac mae llawer yn ymateb yn ddeallus trwy air neu ystum. Tra bod llawer yn siarad yn glir a dealladwy, lleiafrif erbyn diwedd Blwyddyn 2 sy’n ymateb yn hyderus a brwdfrydig i gwestiynau. Mae disgyblion cyfnod allweddol 2 yn adeiladu ar eu medrau llafar yn y Gymraeg yn addas ac, erbyn diwedd Blwyddyn 6, mae llawer yn sgwrsio’n briodol am ar yr hyn maent yn ei wybod am y Blitz, er enghraifft. Fodd bynnag, mae geiriau Saesneg yn britho eu hymatebion llafar ac mae geirfa ymestynnol mwyafrif y disgyblion yn gyfyng. Nid ydynt yn datblygu cystrawennau cywir yn ddigon llwyddiannus i ddatblygu’n ddysgwyr dwyieithog hyderus. Nid yw llawer o ddisgyblion yn dewis defnyddio’r Gymraeg yn ddigon cyson i gyfathrebu’n naturiol yn y dosbarth nac mewn sefyllfaoedd anffurfiol. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn siarad yn aeddfed iawn gan fynegi barn yn hyderus yn Saesneg.

Yn y cyfnod sylfaen, mae llawer o’r disgyblion yn mwynhau edrych ar lyfrau a gwrando ar storïau ac mae’r mwyafrif yn gwneud cynnydd priodol yn eu medrau darllen Cymraeg. Mae ganddynt ddealltwriaeth addas o seiniau ac maent yn defnyddio’u gwybodaeth ffonig yn briodol wrth geisio dehongli geiriau anghyfarwydd. Mae’r mwyafrif yn darllen a deall gwybodaeth ffeithiol am blanedau ac yn ateb cwestiynau ar hyn yn ystyrlon. Fodd bynnag, dim ond ychydig sy’n ddarllenwyr cadarn sy’n llwyddo i newid goslef y llais yn ôl gofynion y testun yn gelfydd. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer yn darllen yn rhugl yn Saesneg, a chyda chywirdeb priodol yn y Gymraeg. Maent yn trafod cynnwys llyfrau’n hyderus, ar y cyfan, ac ar frig yr ysgol, mae rhan fwyaf yn defnyddio thesawrws ar lein yn hyderus yn Saesneg i ganfod geiriau gwefr i gyfoethogi eu hysgrifennu. Fodd bynnag, lleiafrif y disgyblion sy’n trafod cynnwys llyfrau i ddyfnder ac yn ymateb yn estynedig iddynt yn y Gymraeg.

Mae llawer o’r disgyblion ar draws yr ysgol yn gwneud cynnydd da yn eu medrau ysgrifennu o’u mannau cychwyn isel. Mae balchder y disgyblion yn eu cyflwyniadau taclus yn gryfder ar draws yr ysgol, yn arbennig yng nghyfnod allweddol 2. Ar gychwyn y cyfnod sylfaen, mae llawer yn ffurfio llythrennau a phriflythrennau’n glir ac yn gyson o ran maint. Erbyn diwedd y cyfnod, mae llawer yn cynhyrchu gwaith sydd wedi’i drefnu’n dda, er enghraifft wrth ysgrifennu cyfarwyddiadau ar sut i symud tedi ar hyd llwybr penodol. Wedi mynd am dro o amgylch Maesgeirchen, mae llawer yn nodi ffyrdd i wella’r amgylchedd lleol mewn poster effeithiol. Fodd bynnag, lleiafrif y disgyblion sy’n defnyddio cystrawennau addas a geirfa gyfoethog. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer yn ysgrifennu’n ddiddorol a chywir mewn ystod o ffurfiau gwahanol yn Saesneg, ac yn datblygu eu medrau ysgrifennu yn briodol yn y Gymraeg. Mae gan lawer ddealltwriaeth gadarn o’r elfennau angenrheidiol mewn llythyr personol o ran sut i osod llythyr allan yn gywir ac yn adeiladu’n fuddiol ar y

wybodaeth wrth ysgrifennu llythyr yn y Gymraeg am brofiadau yn ystod gwyliau'r haf. Fodd bynnag, mae camsillafu, cystrawen ansicr, a geiriau Saesneg yn britho gwaith mwyafrif o ddisgyblion yn y Gymraeg. Ar waelod cyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud defnydd effeithiol o eiriau disgrifio wrth ysgrifennu'n ddiddorol am berson oedrannus. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer yn ysgrifennu'n gadarn yn Saesneg gan ddefnyddio ansoddeiriau byw a chyflythrennu yn effeithiol wrth lunio sgript i gyd-fynd â ffilm i ddenu ymwelwyr i Eryri. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif y disgyblion yn defnyddio'u medrau ysgrifennu estynedig yn ddigon cyson ar draws y cwricwlwm yn y naill iaith na'r llall.

Yn y cyfnod sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio'u medrau rhifedd yn llwyddiannus. Maent yn casglu a chofnodi data yn effeithiol, er enghraifft wrth greu siart tali a llunio graff bar i ddangos pa fath o drafnidiaeth sy'n mynd heibio'r ysgol. Maent yn amcangyfrif pwysau grawnfwyd yn synhwyrol, ac yn defnyddio clorian yn gywir i wirio eu hymatebion. Mae'r rhan fwyaf yn adalw dysgu blaenorol i gof yn dda wrth egluro'r berthynas rhwng brawddegau rhif gwahanol, trefnu rhifau at 100, a chyfri ymlaen ac yn ôl fesul 2 a 10.

Mae llawer o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn datblygu eu strategaethau rhif yn gadarn. Maent yn defnyddio strategaethau ysgrifenedig a ffeithiau rhif yn hyderus i ddatrys problemau, er enghraifft wrth gynllunio ymweliad ag Ynys Llanddwyn, gan ystyried y pellter a'r gost. Mae'r rhan fwyaf yn defnyddio cyfesurynnau map pedwar digid yn llwyddiannus i adnabod tirnodau gwahanol ym Mharc Cenedlaethol Eryri. Mae llawer yn defnyddio symbolau mathemategol yn gywir, er enghraifft wrth gymharu uchder mynyddoedd Cymru.

Mae'r disgyblion yn dangos hyder cynyddol wrth ddefnyddio a chymhwyso eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh). Erbyn Blwyddyn 2, mae bron pob un disgybl yn y cyfnod sylfaen yn defnyddio llechi electronig yn effeithiol. Maent yn hyderus wrth ddefnyddio pecyn graffeg i greu llun o roced. Mae'r rhan fwyaf yn datblygu ystod o fedrau'n llwyddiannus i gyflwyno gwybodaeth mewn amrywiol ffurfiau, er enghraifft wrth reoli tegan mecanyddol yn llwyddiannus ar fap i symud o'r tŷ i'r orsaf bws.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio eu medrau TGCh yn dda yn drawsgwricwlaidd wrth defnyddio bas data i gofnodi canlyniadau arbrawf gwyddonol ar amseru troellwyr yn symud. Maent yn creu cyflwyniadau amlgyfrwng yn llwyddiannus i gyflwyno'u gwaith, er enghraifft i greu fideo am y profiad o fod yn efaciwi yn gadael adref.

Ar draws yr ysgol, mae bron pob un disgybl yn gwneud cynnydd da yn eu medrau creadigol. Er enghraifft, maent yn ystyried lliw, llinell a thôn yn ofalus wrth efelychu gwaith gan artistiaid enwog o Gymru a thramor. Mae medrau darllen cerddoriaeth a chyd-chwarae mewn band llawer o'r disgyblion yn datblygu'n gadarn ac yn un o gryfderau'r ysgol. Maent wrth eu bodd yn cael chwarae i gynulleidfa yn yr ysgol, ar lwyfan eang canolfan gelfyddydol leol ac mewn ysgolion yng Nghaerdydd.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Da**

Mae perthnasoedd gwaith da iawn yn bodoli rhwng disgyblion a staff yr ysgol, sy'n seiliedig ar barch y naill tuag at y llall. Mae hyn yn nodwedd gref ar draws yr ysgol. Mae bron pob un disgybl yn mwynhau bywyd a gwaith yr ysgol ac yn teimlo'n ddiogel o fewn yr ethos gofalgar, cynhwysol a chynhaliol sy'n bodoli ynddi. Maent yn gwybod yn union at bwy i droi er mwyn derbyn cyngor neu gynhaliaeth os ydynt yn poeni am rywbeth.

Mae ymddygiad bron pob un disgybl mewn gwersi, gwasanaethau, wrth symud o amgylch yr ysgol ac yn ystod amseroedd egwyl a chinio, yn gyson dda. Maent yn gwrtais iawn tuag at ei gilydd, staff ac ymwelwyr gan agor drysau iddynt a siarad â nhw am eu hysgol gyda balchder. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn ofalgar iawn o'i gilydd ac yn dangos parch tuag at eraill mewn gwersi, yn y neuadd ginio ac ar y buarth. Mae gan ran fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth gadarn o egwyddorion a gwerthoedd yr ysgol. Maent yn ystyried anghenion eraill yn dda trwy eu cyfraniad i'r gymdogaeth leol a'u hymweliadau cyson â chanolfan ddydd Plas Hedd, er enghraifft.

Mae bron pob un disgybl yn manteisio'n effeithiol ar y cyfleoedd buddiol a ddarperir iddynt fynegi eu barn ynglŷn ag agweddau pwysig ar waith yr ysgol ac i gyfrannu at eu lles eu hunain a'u cyfoedion. Er enghraifft, cydweithiodd y disgyblion yn effeithiol i greu camau ymddygiad yr ysgol. Maent yn cyfrannu'n fwriadus i fywyd ysgol trwy amrywiaeth o bwyllgorau plant, fel y dŵds digidol, y cyngor ysgol, y pwyllgor eco, y pwyllgor iechyd a lles a'r criw datblygu'r Gymraeg. Ar ôl sylwi ar y broblem parcio tu allan i'r ysgol, er enghraifft, fe aeth aelodau'r cyngor ysgol ati i hel syniadau'r disgyblion a'r staff ar sut i'w wella, a chreu posteri i hybu parcio diogel. Mae disgyblion yn dangos gallu cynyddol i fynegi barn am yr hyn y maent yn ei ddysgu. Trwy gynnig syniadau am yr hyn yr hoffent ei ddysgu o fewn themâu, mae'r rhan fwyaf yn cael eu hymrwymo a'u cymell yn llwyddiannus i'w dysgu eu hunain.

Mewn gwersi, mae rhan fwyaf y disgyblion yn dangos cymhelliant yn eu gwaith, maent yn ymroi'n syth i'w tasgau ac yn barod ar gyfer dysgu. Mae agweddau rhan fwyaf y disgyblion tuag at eu dysgu eu hunain yn gadarn. Maent yn ymateb yn bositif i sesiynau meddylgarwch ar ddechrau gwersi. O ganlyniad, mae bron pob un yn magu hyder ac yn datblygu gwydnwch cynyddol i ddyfalbarhau â'u tasgau. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gweithio'n hyderus ac effeithiol mewn amrywiaeth o ffyrdd, er enghraifft mewn parau trafod, grwpiau bychain ac mewn dosbarthiadau cyfan. Er bod rhan fwyaf y disgyblion yn awyddus i ddysgu, tros y tair blynedd ddiwethaf, nid yw'r cyfartaledd presenoldeb bob amser yn cymharu'n ffafriol ag ysgolion tebyg.

Mae gan ran fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd yfed a bwyta'n iach ac o sut i gadw'n heini. Mae ganddynt ymwybyddiaeth dda o'r effaith mae hyn yn ei chael ar y corff. Caiff hyn ei atgyfnerthu'n llwyddiannus trwy weithgareddau corfforol o fewn y cwricwlwm ac yn allgyrsiol, er enghraifft y clwb pêl-droed, ymweliad preswyl â Phlas Menai a cherdded ar hyd llwybr Llanberis i fyny'r Wyddfa.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Da**

Mae'r holl staff yn dangos parch a gofal tuag at y disgyblion ac yn creu awyrgylch cynhaliol ar eu cyfer. Mae athrawon yn adnabod y disgyblion a'u hanghenion yn dda ac yn creu perthynas waith gynhyrchiol sy'n hybu'r dysgu yn effeithiol. Maent yn

rheoli ymddygiad disgyblion yn fedrus ac yn cynllunio gwersi sy'n ennyn eu diddordeb yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae'r ystafelloedd ddosbarth ac ardaloedd allanol yn fannau gweithgar. Mae cymorthyddion yn cefnogi'r dysgu yn effeithiol yn ystod gwersi ac mewn grwpiau ymyrraeth.

Mae athrawon yn cyflwyno amcanion clir ar gychwyn gwersi, gan sicrhau bod gweithgareddau'n herio dysgwyr yn addas ar y cyfan, ac yn eu hannog i ddewis tasgau sy'n eu herio a'u hymestyn. Maent yn holi disgyblion yn effeithiol er mwyn canfod lefel eu dealltwriaeth neu i symud y dysgu i'r lefel nesaf. Mae'r staff yn rhoi adborth llafar gwerthfawr i ddisgyblion yn ystod sesiynau, ac yn rhoi cymorth iddynt, lle bo'n briodol. Yn yr arferion gorau, mae'r athrawon yn sicrhau eu bod yn darparu cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion asesu gwaith eu cyfoedion yn erbyn meini prawf penodol. Mae hyn yn cyfrannu'n dda at berchnogaeth y disgyblion dros eu dysgu eu hunain a'u brwdfrydedd at ddysgu. Yn gyffredinol, mae'r athrawon yn gosod targedau personol addas ar gyfer y disgyblion. Maent wedi mabwysiadu cyfundrefn bendant ar gyfer rhoi adborth ysgrifenedig i ddisgyblion. Fodd bynnag, nid ydynt wedi datblygu'r technegau hyn i'w llawn botensial hyd yma ac, o ganlyniad, nid yw'r disgyblion bob tro'n mireinio eu gwaith yn ddigon medrus.

Mae'r holl staff yn modelu'r Gymraeg yn effeithiol gan ddefnyddio iaith safonol yn gyson. Mae hyn yn trochi'r disgyblion yn yr iaith o oed cynnar, ac o ganlyniad, mae gan y rhan fwyaf ddealltwriaeth gynyddol ohoni. Fodd bynnag, nid yw disgwyliadau'r holl aelodau staff bob amser yn ddigon uchel o ran mynnu bod disgylbion yn siarad Cymraeg yn gyson a chywir.

Mae egwyddorion y cyfnod sylfaen wedi eu sefydlu'n llwyddiannus yn yr ysgol. Mae'r cyd-gynllunio a gweithredu'r cynllunio ar lawr y dosbarth yn sicrhau bod gofynion cwricwlwm y cyfnod sylfaen yn cael eu darparu'n llawn. Mae'r cynllunio yn sicrhau bod cydbwysedd da rhwng gweithgareddau annibynnol a'r rhai sy'n cael eu harwain gan oedolyn. Mae gan ddisgyblion fynediad cyson i'r ardaloedd allanol ac maent yn elwa'n fawr o weithgareddau diddorol y tu mewn a thu allan i'r dosbarth. Enghraifft dda o hyn yw'r gweithgaredd a gynlluniwyd yn dilyn canfod llanast a dilyn llwybr trwy'r dosbarthiadau a'r ardal allanol i chwilio am gliwiau am bwy wnaeth y llanast, sef ymweliad estronwr o blaned arall. O ganlyniad i brofiadau cyfoethog cyson fel hyn, mae llawer o ddisgyblion y cyfnod sylfaen yn datblygu i fod yn ddysgwyr annibynnol hyderus.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r athrawon hefyd yn cyd-gynllunio tros gyfnod o ddwy flynedd ac yn darparu gweithgareddau dysgu diddorol, sy'n ennill diddordeb llawer o ddisgyblion yn effeithiol. Enghraifft dda o hyn yw'r cynllunio buddiol i godi chwilfrydedd disgyblion rhan uchaf yr ysgol trwy osod botwm amser ar wal y dosbarth er mwyn mynd â'r disgyblion yn ôl i 1941. Trwy hyn, trefnwyd i dderbyn llythyr gan Winston Churchil yn rhoi gwybodaeth i'r disgyblion am effaith y rhyfel ar yr ardal leol. Yn dilyn hyn, cynlluniwyd tasg afaelgar i ysgogi a herio'r disgyblion yn seiliedig ar ddatrys cod mathemategol i ganfod yr ardaloedd a'u rhybuddio. Fodd bynnag, nid yw'r cynllunio bob amser yn sicrhau bod y cwricwlwm yn ddigon eang. Er enghraifft, prin yw'r cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau meddwl trwy gyfrwng ymchwiliadau gwyddonol.

Mae'r athrawon yn darparu cyfleoedd o ansawdd uchel i ddatblygu creadigrwydd y disgyblion. Maent yn sicrhau dilyniant a pharhad yn natblygiad eu medrau ar draws

yr ysgol, ac yn benodol yn eu gallu i arsylwi ar fanylder mewn gwaith celf pobl eraill cyn defnyddio’r un technegau yn eu gwaith hwy. Cynigir cyfleoedd hynod o werthfawr i lawer o ddisgyblion ddysgu darllen cerddoriaeth a chyd-chwarae offerynnau mewn band a pherfformio ar lwyfannau lleol ac yn ehangach.

Ar y cyfan, mae’r athrawon yn cynllunio’n ofalus i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh disgyblion ar draws y meysydd dysgu. Yn y cyfnod sylfaen, maent yn gwneud defnydd effeithiol o’r ardal goedwig i ddatblygu medrau creadigol, dychmygus a chorfforol. Yng nghyfnod allweddol 2, ceir cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion atgyfnerthu eu medrau rhifedd a llythrennedd trwy dasgau cyfoethog. Er enghraifft, drwy gracio cod wrth luosi neu rannu degolion neu luosi rhifau cyfan gyda degolion i ganfod llythrennau cudd, mae disgyblion yn adnabod yr ardaloedd nesaf y byddai’n cael eu bomio yng ngogledd Cymru. Mae’r gweithgareddau fel hyn yn sicrhau ymglymiad llwyr y disgyblion yn eu dysgu. Fodd bynnag, nid yw bob amser mor effeithiol ag y gallai fod wrth ddatblygu medrau llafar, darllen ac ysgrifennu Cymraeg disgyblion.

Mae’r athrawon yn darparu gweithgareddau a phrofiadau cyfoes sy’n adlewyrchu natur a chyd-destun yr ysgol a’i chymuned yn llwyddiannus. Darperir ystod o ymweliadau i fannau diddorol o fewn yr ardal a thu hwnt, er enghraifft wrth ymweld â Dinas Emrys i weld lleoliad chwedl y ddraig goch, a mannau o ddiddordeb yng Nghaerdydd. Mae’r gweithgareddau hyn yn datblygu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth disgyblion o’u cymuned a diwylliant Cymru yn dda iawn.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae’r ysgol yn gymuned hapus a gofalgar iawn sy’n meithrin medrau personol, cymdeithasol, diwylliannol a lles disgyblion yn hynod lwyddiannus. Mae’r staff yn creu amgylchedd waith gynnes sy’n canolbwyntio ar ddatblygu’r plentyn cyfan ac yn magu hyder a hunan-barch y disgyblion yn dda iawn.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau effeithiol a thrwyadl i olrhain a monitro cynnydd a lles disgyblion. Defnyddir y system hon yn fedrus i amlygu disgyblion y mae angen cymorth ychwanegol arnynt. O ganlyniad, mae’r staff yn adnabod anghenion addysgol arbennig a phersonol y disgyblion yn gynnar. Mae gan y disgyblion hyn gynlluniau addysg unigol manwl, ynghyd â thargedau sy’n benodol a mesuradwy. Mae’r ddarpariaeth ar eu cyfer wedi ei mapio’n fanwl ac mae rhaglenni cefnogi dysgu cyfoethog yn cael effaith gadarnhaol ar eu safonau a’u lles. O ganlyniad, mae bron pob un yn gwneud cynnydd cadarn o’u mannau cychwyn. Enghraifft dda iawn o hyn yw’r trefniadau a wna’r ysgol i gynorthwyo disgyblion ag anghenion emosiynol yn ystafell faethu ‘Yr Aelwyd'. Mae’r ysgol yn cydweithio’n agos ag amrywiaeth o asiantaethau er mwyn darparu cefnogaeth werthfawr i ddisgyblion a’u rhieni ac mae’r staff yn rhoi cymorth addas a phwrpasol sy’n sicrhau bod pob disgybl yn cael y dechrau gorau mewn bywyd.

Mae’r ysgol yn darparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ysgwyddo cyfrifoldebau trwy eu hannog i ymgymryd â rolau o fewn amryw bwyllgorau. Mae’r profiadau hyn yn datblygu dealltwriaeth y disgyblion o bwysigrwydd cyfrannu at gymdeithas ac yn eu helpu i ddatblygu’n llwyddiannus i fod yn ddinasyddion cyfrifol. Enghraifft dda o hyn yw gwaith aelodau’r pwyllgor eco i leihau’r defnydd o wellt plastig yn sylweddol.

Mae'r athrawon yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau cymunedol ac ymweliadau lleol, fel gwasanaethau yn Eglwys y Groes. O ganlyniad, mae disgyblion yn datblygu ymdeimlad cryf o berthyn i'w cymuned.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau cadarn ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae hefyd gyfleoedd buddiol ar gael iddynt gymryd rhan mewn gweithgareddau ymarfer corff. Enghraifft dda o hyn yw'r defnydd a wneir o'r cae pêl-droed a'r trac athletau lleol sy'n datblygu medrau corfforol y disgyblion yn effeithiol.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd addas i ddatblygu medrau ysbrydol, moesol a chymdeithasol y disgyblion. Maent yn rhoi pwyslais amlwg ar hybu gwerthoedd fel goddefgarwch, caredigrwydd, cyfeillgarwch a dyfalbarhad. Wrth astudio effaith gwahanol grefyddau a diwylliannau ar draws y byd, caiff y disgyblion gyfle gwerthfawr i ddatblygu eu dealltwriaeth o'r byd ehangach a magu parch tuag at bobl o wahanol ddiwylliannau a chefndiroedd. Enghraifft dda o hyn yw'r cydweithio sy'n digwydd gyda bardd ar weithgareddau sy'n ymwneud â thraddodiadau a diwylliant Jamaica.

Caiff y rhieni eu hysbysu'n rheolaidd am weithgareddau a digwyddiadau'r ysgol. Yn ogystal, cânt wybodaeth am gynnydd eu plentyn yn ystod cyfarfodydd rhieni ac adroddiadau cynnydd ar ddiwedd blwyddyn. Cânt hefyd gyfleoedd cyson i gyfrannu syniadau at gynnwys y themâu tymhorol. O ganlyniad i farn rhieni, mae'r ysgol wedi rhoi ffocws arbennig yn ddiweddar ar yr ardal leol.

Mae trefniadau'r ysgol i ddiogelu disgyblion yn briodol ac, ar y cyfan, yn bodloni'r gofynion. Fodd bynnag, yn ystod yr arolygiad, daeth mater iechyd a diogelwch yn ymwneud â'r safle i sylw'r tîm arolygu. Trafodwyd hwn gyda'r pennaeth a chynrychiolydd o'r corff llywodraethol a'r awdurdod lleol.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir sydd wedi ei seilio ar gefnogi lles disgyblion a chyfoethogi eu profiadau dysgu. Mae ganddo ddylanwad cadarn ar gynnal a chodi safonau cyflawniad y disgyblion. Mae'r holl staff yn teimlo perchnogaeth dros y weledigaeth hon ac maent yn cyfrannu'n effeithiol at greu cymuned ofalgar a hapus i'r disgyblion. Caiff y pennaeth ei gefnogi'n effeithiol gan uwch dîm rheoli sydd wedi cael ei ailstrwythuro yn ddiweddar. Mae gan aelodau'r uwch dîm rheoli ddisgwyliadau uchel o'r disgyblion, yn enwedig ynghylch eu hymddygiad a sut y dylent ryngweithio ag eraill.

Mae'r holl staff yn deall eu rolau yn dda, ac yn cydweithio'n effeithiol. Maent yn gweithio'n effeithiol fel tîm ac yn cynnal trafodaethau proffesiynol buddiol yn ystod cyfarfodydd. Mae hyn yn cynnwys myfyrio ar eu perfformiad eu hunain a pherfformiad eu cyfoedion trwy arsylwi clipiau fideo o'u haddysgu. Mae hyn wedi arwain at greu cymuned addysgu agored a chynhaliol lle mae staff yn datblygu gyda'i gilydd yn effeithiol. Er enghraifft, mae arferion llwyddiannus mewn asesu ar gyfer dysgu yn cael eu lledaenu trwy'r ysgol. Mae gan yr ysgol brosesau rheoli perfformiad cadarn gyda chysylltiadau amlwg â'r blaenoriaethau gwella, yn ogystal â chyfleoedd gwerthfawr i staff fanteisio ar gyfleoedd i weithio tuag at y camau nesaf yn eu gyrfaoedd.

Mae aelodau'r corff llywodraethol yn gefnogol iawn i'r ysgol ac yn cyflawni eu cyfrifoldebau statudol yn llwyddiannus. Mae aelodau'r gwahanol is-bwyllgorau yn deall eu rolau ac yn cyfrannu'n gynhyrchiol i waith y corff llawn. Gydag arweiniad clir gan y pennaeth, maent yn datblygu eu rôl fel cyfeillion beirniadol trwy ymgymryd â gweithgareddau hunanwerthuso fel teithiau dysgu a chraffu ar waith disgyblion. O ganlyniad, mae ganddynt ddealltwriaeth gynyddol o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu.

Mae arweinwyr ar bob lefel yn cynnal ystod eang o weithgareddau hunanwerthuso yn rheolaidd. Lle mae hyn ar ei orau, mae'r gweithdrefnau'n adnabod cryfderau yn gywir ac yn amlygu meysydd i'w gwella yn glir. Fodd bynnag, nid yw medrau dadansoddol yr holl arweinwyr canol bob amser wedi datblygu digon hyd yma i'w galluogi i adnabod a mynd i'r afael yn ddigon effeithiol ac amserol â rhai meysydd penodol o fewn eu rheolaeth sydd angen eu datblygu. Er hyn, mae deilliannau'r broses hunanwerthuso ar y cyfan wedi adnabod yn gywir y meysydd i'w datblygu ac maent yn cysylltu'n agos iawn â'r blaenoriaethau yn y cynllun datblygu cyfredol. Mae'r ysgol yn ymateb yn llwyddiannus i fwyafrif eu blaenoriaethau gwella trwy osod cynlluniau effeithiol ar waith i wella agweddau penodol ohonynt. Er enghraifft, wedi adnabod yr angen, mae arweinwyr wedi sicrhau bod bellach fwy o gyfleoedd da i ddisgyblion gymhwyso'u medrau rhifedd yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm.

Mae arweinwyr yn rheoli cyllideb yr ysgol yn ofalus. Maent yn cynnal lefel briodol o staffio, ac yn rhoi ystyriaeth glir i flaenoriaethau cyfredol wrth glustnodi gwariant. Maent yn gwneud defnydd effeithiol o grantiau, gan gynnwys y grant datblygu disgyblion. Er enghraifft, maent wedi sefydlu ymyrraeth maethu lwyddiannus, ac maent yn cyfoethogi'r cwricwlwm gyda sesiynau offerynnol. Mae gan yr ysgol amrediad da o adnoddau, fel offer technoleg gwybodaeth. Mae tir yr ysgol yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion gymryd rhan mewn sesiynau ysgol goedwig sy'n hyrwyddo eu gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd yn effeithiol.

## Sail dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

© Hawlfraint y Goron 2020: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 07/05/2020